OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1372

## Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

## RHAN 7

Darpariaethau arolygu, darpariaethau gorfodi a darpariaethau amrywiol

**Tramgwyddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig**

**44.**—(1) Caniateir i achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, yr honnir ei fod wedi ei gyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion achos cyfreithiol o'r fath—

(a) mae rheolau'r llys ynghylch cyflwyno dogfennau i gael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas yn gorff corfforaethol, a

(b) mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**1**) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**2**) yn gymwys mewn perthynas â'r bartneriaeth neu'r gymdeithas yn yr un modd ag y maent yn gymwys i gorff corfforaethol.

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas adeg ei chollfarnu o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan bartneriaeth wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran partner, bydd y partner hwnnw (yn ogystal â'r bartneriaeth) yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael achos cyfreithiol yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

At y dibenion hyn, mae "partner" ("*partner*") yn cynnwys person sy'n honni ei fod yn gweithredu fel partner.

(5) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad un o swyddogion y gymdeithas, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y swyddog hwnnw (yn ogystal â'r gymdeithas) yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael achos cyfreithiol yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

At y dibenion hyn, ystyr "swyddog" ("*officer*") yw un o swyddogion y gymdeithas neu aelod o'i gorff llywodraethu, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swyddogaeth o'r fath.

(**1**) 1925 p.86. Diddymwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 33 gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p.55), adran 132 ac Atodlen 6; diwygiwyd is-adran (3) gan Ddeddf y Llysoedd 1971 (p. 3), adran 56(1) ac Atodlen 8, rhan II, paragraff 19; diwygiwyd is-adran (4) gan Ddeddf y Llysoedd 2003 (p.39), adran 109(1) a (3), Atodlen 8, paragraff 71 ac Atodlen 10, a chan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43), adran 154 ac Atodlen 7, paragraff 5; diddymwyd is-adran (5) gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952, adran 132, Atodlen 6.

(**2**) 1980 p. 43. Diwygiwyd is-baragraff 2(a) gan Ddeddf Gweithdrefn Droseddol ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (p.25), adran 47, Atodlen 1, paragraff 13, ac fe'i diddymwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44), adrannau 41 a 332, Atodlen 3, rhan 2, paragraff 51, is-baragraffau (1), (13)(a), ac Atodlen 37, rhan 4 (yn effeithiol o ddyddiad sydd i'w bennu); diddymwyd paragraff 5 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p.53), adrannau 25(2) a 101(2) ac Atodlen 13; diwygiwyd paragraff 6 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 41, Atodlen 3, rhan 2, paragraff 51, is-baragraffau (1) a (13)(b) (yn effeithiol o ddyddiad sydd i'w bennu).